

Afan Lodge: Ailgyllidwyd – Ailstrwythurwyd – Ail-egniolwyd

1. Mae'n bleser gan Gwmni Buddiannau Cymunedol Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd (CBC PyC) gyhoeddi ei fod wedi gweithio gyda'r perchnogion ac eraill i sicrhau cyfraniad parhaus Afan Lodge at ffyniant Cwm Afan a chymunedau ehangach. Mae CBC PyC wedi gwneud hyn fel rhan o'i gylch gwaith a'i genhadaeth i helpu i ysgogi ac adfywio gweithgarwch economaidd ledled ardal buddiant y Gronfa.
2. Yn dilyn cais gan berchnogion Afan Lodge a diwydrwydd dyladwy priodol, mae CBC PyC wedi llwyddo i gytuno, gyda'r perchnogion a'u bancwyr, ar ddewis a fydd yn cynnal y cyfleuster fel busnes allweddol yn y cwm. Bydd hyn yn ei alluogi i wireddu ei botensial strategol, gan ddiogelu cyflogaeth leol a chaniatáu ar gyfer datblygiadau ehangach yn y dyfodol, er budd yr holl randdeiliaid.
3. Mae Afan Lodge wedi cynnig llety o ansawdd da am bris rhesymol yn yr ardal ers nifer o flynyddoedd ac mae mewn sefyllfa unigryw o ran ei bwysigrwydd strategol wrth ddatblygu dyfodol economaidd ehangach yr ardal. Mae bellach yn is-gwmni i CBC PyC a fydd yn cael ei reoli a'i redeg ar ran CBC PyC gan staff lleol - gan ryddhau ei botensial i ehangu ei arlwy mewn amrywiaeth o ffyrdd.
4. Mae'n amlwg o'n dadansoddiad ni ein hunain ac o drafodaethau gyda rhanddeiliaid eraill bod datblygu twristiaeth yng Nghwm Afan yn cael ei ystyried yn hanfodol bwysig wrth lunio'r economi leol. Mae'n amlwg hefyd fod diffyg llety digonol i ymwelwyr yn llesteirio datblygiad er mwyn denu a chadw ymwelwyr sy'n dymuno aros am gyfnodau hirach.
5. Mae'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu'r gwerth y mae CBC PyC yn ei roi ar yr angen i sicrhau llety o safon i ymwelwyr yng Nghwm Afan fel conglfaen datblygu economaidd pellach yn yr ardal. Mae hefyd yn adlewyrchu'r gwerth yr ydym yn ei roi ar y gwaith a'r arweinyddiaeth a ddangoswyd hyd yma gan y perchnogion presennol o ran datblygu'r busnes a'n hyder a'n cyffro ynghylch ei botensial yn y dyfodol.
6. Hoffai CBC PyC ddiolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed i gyflawni'r ateb hwn: perchnogion y Lodge, Banc Nat West, ein tîm cyfreithiol yn Capital Law, David & Snape a chyfrifwyr Menzies. Heb eu dyfalbarhad a'u hyblygrwydd ni fyddai'r canlyniad cadarnhaol hwn wedi bod yn bosibl.